**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**GWEINIDOGION CYMRU**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAER I FANGOR (YR A55) (GWELLIANT AILALINIO CYFFYRDD 14 A 15 A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) 202-**

**HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD**
**HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL YN UNOL Â RHEOLIAD 63 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar waith i ddisodli'r gylchfan bresennol wrth Gyffordd 15 o Gefnffordd yr A55 yn Llanfairfechan, er mwyn darparu cyffordd aml lefel a throsbont yn ei lle wrth Gyffordd 15 a fydd yn cynnwys gwaith ar y llinell ac oddi ar y llinell a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb y CE 2014/52/EU. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad Amgylcheddol (DA).

Mae'r prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (ASGE) yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP).

Gellir edrych ar gopïau o'r DA a'r DHAP yn rhad ac am ddim yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn Sefydliad yr Eglwys, Ffordd Parc, Llanfairfechan LL33 OAE.

**Sylwer:** Bydd mynediad i'r lleoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau COVID-19 perthnasol fydd ar waith ar y pryd. Yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol COVID-19, dim ond drwy apwyntiad y gellir edrych ar gopïau. Er mwyn trefnu i edrych ar y dogfennau, cysylltwch â Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd y Cynllun, Mike Gilbert ar y rhif ffôn symudol: 07840 330 238 neu drwy'r e-bost: A55J15J16@Ramboll.com.

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT**

**THE WELSH MINISTERS**

**THE CHESTER TO BANGOR TRUNK ROAD (A55) (JUNCTIONS 14 AND 15 IMPROVEMENT REALIGNMENT AND SLIP ROADS) ORDER 202-**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT NOTICE OF DETERMINATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 105B OF THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR EUROPEAN SITES**
**NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN APPROPRIATE ASSESSMENT IN ACCORDANCE WITH REGULATION 63 OF THE CONSERVATION OF HABITATS AND SPECIES REGULATIONS 2017 (AS AMENDED)**

The Welsh Ministers are considering implementing a project to replace the existing A55 Trunk Road Junction 15 roundabout at Llanfairfechan and replace it with a grade-separated junction and overbridge at Junction 15 to include online and off line works and side road improvements. This project is subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and EC Directive 2014/52/EU. Therefore the Welsh Ministers give notice that they have published an Environmental Statement (ES).

The project is also subject to an Assessment of Implications on European Sites in accordance with the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 and Article 6(3) of the Habitats Directive 92/43/EC. Therefore the Welsh Ministers also give notice that they have published a Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA).

Copies of the ES and SIAA may be inspected free of charge during the objection period at The Church Institute, Park Road, Llanfairfechan LL33 OAE.

**Please note**: Access to these venues will be subject to the relevant COVID-19 restrictions in place at the time. Due to COVID-19 social distancing restrictions, inspection of the documents will be by prior appointment only. To arrange to inspect the documents, please contact the Scheme Public Liaison Officer, Mike Gilbert on mobile telephone: 07840 330 238 or email: A55J15J16@Ramboll.com.

Anyone unable to access the Orders digitally or visit the deposit locations should contact the Scheme Public

Dylai unrhyw un nad yw'n gallu cyrchu'r Gorchmynion yn ddigidol neu nad yw'n gallu ymweld â'r lleoliadau adneuo gysylltu â'r Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd i wneud trefniadau amgen.

Gellir prynu copïau o'r DA a'r DHAP oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ am y prisiau a ganlyn:

Cyfrol 1 y DA (Adroddiad ar yr Asesiad Technegol) - £143 (y copi);
Cyfrol 2 y DA (Ffigurau) - £48 (y copi);
Cyfrol 3 y DA, Rhannau A i C (Atodiadau Technegol) - £475 (y copi o bob rhan);
Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP) - £79.
Gellir prynu copïau electronig o'r DA a'r DHAP cyflawn am £5.

Gellir cael copïau o'r Crynodeb Annhechnegol o'r DA oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae copi electronig o'r DA a'r Crynodeb Annhechnegol wedi ei gyhoeddi ar-lein ar https://llyw.cymru/a55-cyffordd-14-ac-15.

Dylai unrhyw sylwadau am y prosiect a/neu'r DA a/neu'r DHAP gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays a roddir uchod a dylent gyrraedd erbyn 7 Mai 2021 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw ysgrifenedig cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio, a hynny gydag addasiadau neu hebddynt.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y DHAP neu'r hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru

Liasion Officer to make alternative arrangements.

Copies of the ES and SIAA can be purchased from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ at a cost of:

ES Volume 1 (Technical Assessment Report) - £143 (per copy);
ES Volume 2 (Figures) - £48 (per copy);
ES Volume 3 Parts A to C (Technical Appendices) - £475 (per copy of each part);
Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) - £79.
Electronic copies of the complete ES and SIAA can be purchased at a cost of £5.

Copies of the ES Non-Technical Summary may be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ. An electronic copy of the ES and Non-Technical Summary is published on-line at https://gov.wales/a55-junctions-14-and-15.

Any comments about the project and/or the ES and/or the SIAA, should be made in writing to the Welsh Government at the Cathays Park address given above to arrive no later than 7 May 2021.

The Welsh Ministers will take all written comments into consideration before deciding whether or not to proceed with the project with or without modifications.

Further information about the project, the ES, SIAA or this notice, can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Business Team Leader
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers